Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Ystadegau'r DU (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2021** |
| **DYDDIAD** | **24 Tachwedd 2021** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Ystadegau'r DU (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2021**

**Trosolwg o'r Offeryn Statudol o ran polisi**

Nod yr offeryn hwn yw parhau â'r dull a ddefnyddiwyd yn Rheoliadau Ystadegau'r DU (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019, a ddechreuodd y broses o ddirymu cyfraith yr UE ar ystadegau. Diben yr offeryn hwn yw dirymu gweddill cyfraith yr UE a ddargedwir ar ystadegau, gan gynnwys deddfwriaeth newydd sydd wedi dod i rym ers drafftio offeryn 2019.

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**

- Set o amrywiol gyfreithiau'r UE a ddargedwir, fel y'u nodir yn yr atodlen i'r Offeryn Statudol (OS) sy'n gorfodi rhwymedigaethau ar y DU i ddarparu data ystadegol penodol i Eurostat, swyddfa ystadegol y Comisiwn Ewropeaidd, at ddibenion paratoi ystadegau Ewropeaidd.
- Set o amrywiol gyfreithiau'r UE a ddargedwir, fel y'u nodir yn yr atodlen i'r OS, sy'n gosod y safonau a'r dosbarthiadau ystadegol y mae'n rhaid i ddata ystadegol eu bodloni at ddibenion paratoi ystadegau Ewropeaidd.
- Deddf Diogelu Data 2018
- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
- Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016
- Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016
- Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyflenwyr Trydan (Diwygio a Thrydan a Eithrir) 2015

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â darparu gwybodaeth ystadegol.

Bydd y rheoliadau yn dirymu cyfraith yr UE a ddargedwir (Rheoliadau a Phenderfyniadau) mewn perthynas â darparu a chasglu ystadegau ar lefel yr UE.

Bydd y rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016, Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016, Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyflenwyr Trydan (Diwygio a Thrydan a Eithrir) 2015 a Deddf Diogelu Data 2018 fel bod y cyfeiriadau ynddynt at safonau Ewropeaidd penodol yn cael effaith o fewn cyfraith yr UE a ddargedwir o ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau: https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2021/1300/contents/made

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru gan ei fod yn dechnegol ei natur yn unig.

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd**

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gan ei fod yn dechnegol ei natur yn unig.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar gyfer y DU gyfan yn sicrhau un fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y DU i gyd, sy’n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.